

# CBAC Gwarchod Data

## Datganiad Ymrwymiad Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol

Daeth Rheoliad Ddiogelu Data Cyffredinol neu'r GDPR i rym ar 25 Mai 2018 sydd wedi disodli'r Ddeddf Diogelu Data ar gyfer pob sefydliad sy'n casglu a phrosesu data personol unigolion sy'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau preifatrwydd a diogelu data yn ddifrifol iawn, ac mae gennym raglen o weithgaredd ar y gweill fel bod ein busnes yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

Bydd ein gwefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddiweddariadau i'n polisi preifatrwydd, sy'n esbonio sut yr ydym yn defnyddio'ch wybodaeth bersonol. Bydd unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ein hysgolion a cholegau, arholwyr a chymedrolwyr neu gyflenwyr yn cael eu cyfleu fel sy'n briodol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y rheoliad newydd ar wefan Swyddfa'r [Comisiynydd Gwybodaeth](#), neu trwy ein [Polisi Preifatrwydd](#).

Os oes angen adroddiad cais gwrthrych am wybodaeth GDPR arnoch, bydd angen i chi lenwi [Ffurflen Mynediad at Ddata Personol](#). Dylech gyfeirio at y [cwestiynau cyffredin](#) hyn wrth wneud hynny. Noder, nid dogfen swyddogol yw hon ac nid yw'n cael ei derbyn gan gyflogwyr, colegau neu brifysgolion fel tystiolaeth o ganlyniadau eich cymwysterau fel arfer.

Bydd unrhyw sylwadau neu gwestiynau am bolisi gwarchod data CBAC yn cael eu croesawu, medrwch eu cyfeirio at:

### Swyddog Gwarchod Data

CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd. CF5 2YX  
swyddog.gwarchod.data@cbac.co.uk